ATODLEN 1

Diwygiadau o ganlyniad i gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr) 2010**

**21.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr) 2010(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "appropriate person", ym mharagraff (c), ar ôl "Care Standards Act 2000", mewnosoder "or, who is registered as the service provider under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016,";

(b) yn y diffiniad o "registered manager", ar ôl "Care Standards Act 2000", mewnosoder "or with Social Care Wales(**2**)".

(3) Yn rheoliad 6 (trefniadau ar gyfer gofalu am blentyn), ym mharagraff (3)(e), ar ôl "Care Standards Act 2000", mewnosoder "or, who is registered as the service provider under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016".

(4) Yn rheoliad 28 (amlder yr ymweliadau), ym mharagraff (7)(b), ar ôl "or agencies)" mewnosoder "or under section 39 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (notifying local authorities of certain action under this Part)".

(**1**) O.S. 2010/959, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2011/581, 2013/706 a 2015/495.

(**2**) Mae'n ofynnol i unigolyn cyfrifol gwasanaeth rheoleiddiedig (o fewn ystyr Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016")) benodi person i reoli'r gwasanaeth rheoleiddiedig, yn yr achos hwn wasanaeth llety diogel (*gweler* Rhan 1 o Ddeddf 2016 ac Atodlen 1 iddi), y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "cartref diogel i blant". Mae'r gofyniad hwn wedi ei nodi yn rheoliad 67 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (dyletswydd i benodi rheolwr) ac mae'n ofynnol i reolwr sydd wedi ei benodi yn unol â'r ddarpariaeth hon gael ei gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (*gweler* rheoliad 35(2)(e) o'r Rheoliadau hynny (addasrwydd staff)). Mae i Ofal Cymdeithasol Cymru (Social Care Wales) yr ystyr a roddir gan adran 67 o Ddeddf 2016.